

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANRHAEADR Y.C. A GYNHALIWIYD YN YSGOL BRO CINMEIRCH, LLANRHAEADR AR NOS LUN 30AIN O FEHEFIN 2014 AM 7.30 O'R GLOCH.

1. PRESENNOL: Y Cyngorwr Philip Williams (Cadeirydd), Hywel Davies, Barri Evans, Jill Evans, Gwennan Hughes, Iwan Jones, Falmai Evans, Stan Williams, Cyngoroydd Sir Ddinbych Joe Welch a'r Clerc.

2. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 2il o Fehefin 2014 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

3. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Adroddwyd y Clerc ei fod yn dal i ddisgwyl ymateb gan Adran Priffyrdd Cyngor Sir Ddinbych ynglŷn ar broblemau'r ffyrdd y Gymuned.

4. SEDDI GWAG Y CYNGOR.

Derbyniwyd gwybodaeth gan y Clerc nad oedd unrhyw ymgeisydd wedi ymateb i'r hysbyseb i'r ddau set wag ar y Cyngor. Derbyniwyd ymholiadau llafar am y seti gan Elfed Williams, Wyn Jones, Huw Roberts, Iona Edwards-Jones a Nerys Mosford-Jones. Penderfynwyd gofyn i'r pum ymholiad ysgrifennu yn swyddogol i'r Clerc yn ymgeisio am y seti wag.

5. PROSIECT CYSYLLTU FFERMYDD WYNT GOGLEDD CYMRU.

Yn dilyn cyfarfod cyhoeddus ar Nos Wener 20fed o Fehefin 2014 ynghyn ar Brosiect Cysylltu Ffermydd Wynt Gogledd Cymru derbyniwyd yr aelodau gopi swyddogol o'r ymateb at Scottish Power yn gwrthwynebu'r peilonau trydan a'r rhesymau am roi'r llinell trydan o dan y ddaear. Penderfynwyd trafod ysgrifennu at y cwmnïau tyrbîn gwynt ynglŷn ar brosiect yn cyfarfod nesaf y Cyngor.

6. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £12,843.00.

B. Derbyniwyd llythyr gan Drysorydd Clwb-y-Pentan, Llanrhaeadr yn cadarnhau bod £150.00 rhodd y Cyngor yn ystod mis Mawrth 2014 ddim wedi ymddangos yn fantolen eu Banc a gofynnir am sicc arall gan y Cyngor. Adroddwyd y Clerc bod y tal wedi mynd trwy'r cyfriff Banc y Cyngor a phenderfynwyd adroddi hyn i'r Trysorydd Clwb-y-Pentan.

C. Taliadau:-

1. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2014 - £360.00.

2. PAYE am y chwarter yn diweddu 30ain o Fehefin 2014 - £90.00.

D. Arwyddwyd y Cadeirydd ar Glerc cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain Mawrth 2014 ar ôl derbyn adroddiad yr Archwiliwr Allanol, Hacker Young.

7. CEISIADAU CYNLLUNIO.

A. Chadarnhawyd yr aelodau am 15 o dai ar dir gyferbyn a Llys Gwilym, Llanrhaeadr.

B. Ail adeiladu adeilad i lanhau ceir yn Pentre Motors, Pentre Llanrhaeadr - dim gwrthwynebiad (nid chymerodd y Cynghorwyr Bari Evans a Falmai Evans ran yn y drafodaeth na'r bleidlais).

C. Tyrbin Wynt ym Meifod, Saron - Penderfynwyd ar y sylwad bod y tyrbin wynt yn rhy agos at dai gyferbyn ar safle (nid chymerodd y Cynghorwyr Gwennan Hughes a Jill Evans ran yn y drafodaeth na'r bleislais).

8. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

9. UNRHYW FATER ARALL.

A. Penderfynwyd yr aelodau i'r Clerc tynnu sylw Adran Briffyrdd Cyngor Sir Ddinbych at faterion y ffyrdd canlynol-

1. Pant-y-Coed at Feifod yn Saron.

2. Broblem dwr yn dŵad ar y ffordd o gae Cae'r Mynydd, Saron.

3. Ffordd heibio Ty'n Ffrith, Saron.

4. Ffordd heibio Tŷ Isaf, Phrion.

B. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc ysgrifennu i ddiolch i Ysgol Bro Cinmeirch, Llanrhaeadr am gael marciau diogelwch ar y ffordd wrth yr Ysgol.

C. Penderfynwyd yr Aelodau i'r Clerc ysgrifennu at y Lleng Prydeinig Brenhinol am ganiatâd rhoi enwau ar y Gof Golofn yn Llanrhaeadr sydd yn ymddangos ar Gof Golofn eraill yn yr ardal.

10. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Lun 28ain o Orffennaf 2014 yn Ysgol Pant Pastynog, Prion am 7.30 o'r gloch.